Local Development Plan 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Mai 2026

# Archwiliad CDLl Newydd Caerdydd

## Datganiad o Dir Cyffredin rhwng Cyngor Caerdydd a Mineral Products Association




www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872088
CDLl@caerdydd.gov.uk


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

## Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd Datganiad o Dir Cyffredin

1.1 Paratowyd y datganiad canlynol rhwng Cyngor Caerdydd a Mineral Products Association (104).

## Materion a gytunwyd

1.2 Yn gyntaf, mae Mineral Products Association wedi gwneud sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo yn gwrthwynebu dyrannu safle ardal adfywio dan arweiniad tai H2.4 yn Noc y Rhath (Ochr y Gogledd) gan nodi y byddai'r cynnig i sefydlu tai dwysedd uchel yn effeithio ar y gallu i lanio agregau morol yn Noc y Rhath a dylid ei ddileu o'r cynllun (Sylwadau 104.04 a 104.09).

1.3 Am y rhesymau a nodir uchod, mae'r Cyngor yn cytuno gyda Mineral Products Association y dylid dileu'r dyraniad hwn o'r cynllun, a chynigir bod polisi H2: Ardaloedd Adfywio dan Arweiniad Tai yn cael ei ddiwygio a dyraniad H2.4 Doc y Rhath (Ochr y Gogledd) yn cael ei ddileu o'r polisi a'i ddileu o'r Map Cynigion (gweler Atodiad 1). Cynigir bod y newidiadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) sydd ar ddod.

1.4 Nid yw'r Cyngor o'r farn y bydd dileu'r dyraniad hwn a'r amcangyfrif o 316 o anheddau yn effeithio'n sylweddol ar y strategaeth dai a nodir yn y cynllun o ystyried bod Tabl 11: Crynodeb o'r Cyflenwad Tir Tai yn y Papur Technegol Cefndir Rhif 1 Tai yn dangos digon o gapasiti tai yn ystod y cynllun heb gynnwys y dyraniad hwn.

1.5 Yn ail, mae Mineral Products Association yn pryderu y gallai'r dyraniad safle adfywio dan arweiniad tai H2.5 ym Mhorth Teigr a Phentir Alexandra gyfyngu ar weithrediadau a chyfleoedd glanio morol (Sylw 104.03).

1.6 Yn dilyn sylwadau a wnaed gan ABP, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o'r ffin ac wedi cytuno ffin ddiwygiedig gydag ABP ar gyfer yr ardal adfywio dan arweiniad tai H2.5 ym Mhorth Teigr a Phentir Alexandra (gweler y Datganiad o Dir Cyffredin ar wahân gydag ABP). Mae’r ffin ddiwygiedig wedi'i chynnwys yn Atodiad A y datganiad hwn a bydd hefyd yn arwain at newidiadau i'r ffin a ddangosir ar y Map Cynigion ar gyfer Polisi SP9: Cefnogi Rôl Porthladd Caerdydd. Cynigir bod y newidiadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) sydd ar ddod.


1.7 O ran effaith arwynebedd llai y safle ar gapasiti datblygu'r safle fel y nodir ym mharagraff 7.12 y cynllun, caiff uwchgynllun ar gyfer y safle ei ddatblygu

yn unol â'r egwyddorion a nodir ym mholisi SP3: Sicrhau Ymagwedd Uwchgynllunio a fydd yn sicrhau y darperir y seilwaith angenrheidiol a chyflawni cymdogaethau cynaliadwy.

1.8 Er y cydnabyddir y gallai'r broses hon sy’n gysylltiedig â safle llai o faint efallai arwain at newidiadau i gapasiti cyffredinol y safle, ystyrir na fydd hyn yn effeithio ar y strategaeth dai a nodir yn y cynllun o ystyried bod y taflwybr tai yn y cynllun ond yn cymryd yn ganiataol y bydd 1,310 o'r capasiti amcangyfrifedig o 2,310 o anheddau yn cael eu hadeiladu yng nghyfnod y cynllun hyd at 2036. Gan ystyried hynny, mae'r Cyngor o’r farn na fydd gostyngiad yn y niferoedd yn effeithio ar y cyflenwad tai cyffredinol a nodir yn Nhabl 11: Crynodeb o'r Cyflenwad Tir Tai yn y Papur Technegol Cefndir Rhif 1 Tai.

**1 Mai 2026**


**Cyngor Caerdydd**




**Mineral Products Association**



## Atodiad 1:Ffin dyraniadau H2.4 a H2.5 ar Fap Cynigion y Cynllun Adneuo



**Ffin Ddiwygiedig Arfaethedig ar y Map Cynigion gyda H2.4 wedi'i ddileu a ffin ddiwygiedig i H2.5 (H2.4 erbyn hyn).**

